**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1396 (Cy. 141)). Maent yn gymwys o ran Cymru (rheoliad 1).

Mae'r Rheoliadau yn gwahardd defnyddio enwau penodedig wrth werthu a hysbysebu cynhyrchion rheoleiddiedig os nad yw'r cynhyrchion yn bodloni gofynion penodol o ran eu cyfansoddiad (rheoliad 4 ac Atodlen 1).

Yn ddarostyngedig i eithriad, mae'r Rheoliadau yn gwahardd gwerthu cynhyrchion rheoleiddiedig heb eu coginio sy'n cynnwys ymysg eu cynhwysion rannau penodedig o garcas unrhyw rywogaeth o anifail mamalaidd (rheoliad 5).

Mae'r Rheoliadau yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau bwyd ac awdurdodau iechyd porthladd i orfodi'r Rheoliadau (rheoliad 6).

Mae rheoliad 7 yn cymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p. 16) gydag addasiadau. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso adran 10(1) a (2) (gydag addasiadau) er mwyn gallu cyflwyno hysbysiad gwella sy'n ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â rheoliadau 4(1) neu (2) neu 5(1). Mae'r darpariaethau, fel y'u cymhwysir, yn peri ei bod yn drosedd i fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwella. Hefyd, mae'r Rheoliadau yn cymhwyso adrannau 37(1) a (6) a 39 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 gydag addasiadau, er mwyn gallu apelio yn erbyn penderfyniad i gyflwyno hysbysiad gwella (rheoliad 7).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cymhwyso darpariaethau penodol eraill o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, gydag addasiadau (rheoliad 7 ac Atodlen 2).

Yn ogystal â dirymu Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004, mae'r Rheoliadau'n dirymu Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) (Diwygio) 2008 (O.S. 2008/713 (Cy. 74)) (rheoliad 8).

Mae rheoliad 9 ac Atodlen 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, mae asesiad rheoleiddiol wedi ei lunio ynglŷn â'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, Llawr 11, Tŷ Southgate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 1EW.